**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Busnes

**National Assembly for Wales**
Business Committee

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

8 Ionawr 2019

Annwyl David

**Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)**

Yn ei gyfarfod yr wythnos hon, â'r Dirprwy Lywydd yn y gadair, bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod papur gan y Llywydd ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol cyn dod i benderfyniad ynghylch pa bwyllgor i gyfeirio'r Bil ato ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Penderfynodd Rheolwyr Busnes hefyd ohirio penderfyniad ar amserlen arfaethedig y Bil i roi amser i'r Pwyllgorau drafod yr amserlen arfaethedig.

Amgaeaf bapur y Llywydd i chi ei drafod – cofiwch ei fod yn bapur preifat na ddylid ei gyhoeddi na'i ddosbarthu i bobl heblaw am aelodau pwyllgor.  Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i mi, gan amlinellu eich barn am y potensial i'ch pwyllgor drafod egwyddorion cyffredinol y Bil a'i amserlen arfaethedig erbyn dydd Llun 14 Ionawr 2019.

Cofion

Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSiambr@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/PwyllgorBusnes
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddChamber@assembly.wales
www.assembly.wales/BusinessCommittee
0300 200 6565